

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

28ain Chwefror 2022

Annwyl Gyfaill,

CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED MAWDDWY **Nos Fercher y 9fed o Fawrth 2022 am 7.30pm** yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Unwaith eto, byddwn yn dilyn canllawiau y Neuadd, ond y tro hwn y gobaith ydi y gallwn ddychwelyd i'r ystafell fach.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26ain Ionawr - gweler gopi yn atodol.

4. Materion yn codi.

a) Materion Priffyrdd a chefnffyrdd.

b) Arwydd mynwent Mallwyd – (*wedi ei osod*).

c) Taliadau I Gynghorwyr Mawddwy 2021-22 – rhaid sicrhau fod y datganiadau wedi eu harwyddo – i'w dosbarthu ar y noson.

d) Cwynion am Swyddfa Bost Dinas Mawddwy

5. Materion Cynllunio

6. Materion Cyllid

Adolygu y gwariant i'w gymharu a'r gyllideb,

Anfoneb E W Owen a'I Chwmni am y PAYE/RTI a P60

Aelodaeth Un Llais Cymru 2022-23

Ceisiadau am arian ;

Cylch Meithrin Dolybont

Eisteddfod y Grogllith ac Adran yr Urdd (llythyr I law gan Gwawr Davalan)

Cyfrifon 2020-21.

Cadarnhau Archwilwyr mewnol ar gyfer y flwyddyn 2022-23

7. Gohebiaeth

8. Unrhyw fater arall